Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire
County Council

# GWEITHDREFN CWYNION AM SŴN O FFERMYDD GWYNT

# WIND FARM NOISE COMPLAINT PROCEDURE

## CYNNWYS


1. **Cyflwyniad**
2. **Y Camau Ymchwilio i Gwynion am Sŵn**

   (i) **Ymholiad Cychwynnol**
   (ii) **Cwblhau Log Niwsans**
   (iii) **Casglu Gwybodaeth/Tystiolaeth**
   (iv) **Asesu'r Dystiolaeth**
   (v) **Gorfodi**


### 1. Cyflwyniad

Mae Tim Diogelu'r Amgylchedd Cyngor Sir Caerfyrddin yn cael tua 1300 o gwynion am sŵn bob blwyddyn, y mae rhai ohonynt yn ymwneud â sŵn o dyrbinau gwynt. Bydd y weithdrefn hon yn rhoi ichi'r wybodaeth berthnasol am sut ydym yn ymdrin â'r holl gwynion am sŵn sy'n ymwneud â thyrbinau gwynt.

Rydym yn gyfrifol am gymryd camau rhesymol i ymchwilio i gwynion am sŵn, er mwyn gweld a oes Niwsans Sŵn Statudol yn digwydd.

Nid yw'r ffaith fod sŵn i'w glywed yn eich cartref ohono'i hun yn golygu bod y sŵn hwnnw'n niwsans. Mae'n rhaid bod y sŵn yn cael effaith sylweddol arnoch ac ar y defnydd neu'r mwynhad a gewch o'ch eiddo cyn y gellir ei ystyried yn Niwsans Sŵn Statudol. Felly mae'n rhaid i'r sŵn achosi mwy nag aflonyddwch neu ddicter. Mae Niwsans Statudol yn rhywbeth sy'n digwydd am gyfnod hir neu'n gymharol aml. Mae digwyddiadau "unwaith yn unig" yn llawer llai tebygol o gael eu hystyried yn Niwsans Statudol. Wrth benderfynu a oes Niwsans Statudol yn digwydd ai peidio mae'n rhaid ystyried beth y byddai'r rhan fwyaf o bobl yn ei ystyried yn rhesymol, h.y. safonau "Rhywun Rhesymol Arferol". Ni allwn ddisgwyl safon uwch oherwydd sensitifrwydd anarferol ar ran yr

## CONTENTS


3. **Introduction**
4. **Stages in Investigating a Noise Complaint**

   (i) **Initial Enquiry**
   (ii) **Completion of Nuisance Log**
   (iii) **Information/Evidence Gathering**
   (iv) **Assessment of Evidence**
   (v) **Enforcement**


### 1. Introduction

Carmarthenshire County Council's Environmental Protection Team receives over 1300 noise complaints every year, some of which relate to noise from wind turbines. This procedure will provide you with the relevant information about how we deal with all noise complaints relating to wind turbines.

We have the responsibility of taking reasonable steps to investigate noise complaints to establish whether or not a Statutory Noise Nuisance is present.

A sound being audible in your home does not automatically make it a nuisance. For there to be a Statutory Noise Nuisance it must have a significant effect on you and the use or enjoyment of your property. It must therefore be more than just an annoyance or irritation. A Statutory Nuisance needs to occur for some length of time, or with some frequency. "One-off" occurrences are much less likely to be regarded as a Statutory Nuisance. The judgment as to whether a Statutory Nuisance exists must have regard to what most people consider to be reasonable, i.e. the standards of "the Average Reasonable Person". We cannot expect a higher standard because of any undue sensitivity of the complainant.

achwynydd.

Caiff cwynion eu cofnodi ac ymchwilir iddynt yn unol â gweithdrefn a luniwyd i wneud yn siŵr yr ymdrinnir â chwynion yn gyson, yn briodol ac yn deg.

Mae gan rai datblygiadau tyrbin gwynt amodau cynllunio sy'n ymwneud yn benodol â sŵn, megis uchafswm lefelau sŵn y tyrbin(au) gwynt. Hefyd mae'n bosibl y ceir amod sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r gweithredwr fonitro cydymffurfiaeth ar ôl cael cwyn teg am sŵn, er mwyn dangos cydymffurfiaeth â'r terfyn sŵn. Nid yw'r amodau hyn ynghlwm wrth bob datblygiad tyrbin gwynt, ond lle bônt, bydd Gorfodi Rheolau Cynllunio yn gyfrifol am asesu cydymffurfiaeth â'r amodau cynllunio. I gael rhagor o wybodaeth am gydymffurfio â rheolau cynllunio, cysylltwch â Galw Sir Gâr ar 01267 234567 neu ewch i www.sirgar.gov.uk

Bydd yr ymchwiliad Niwsans Statudol yn cael ei gynnal ar wahân i fonitro cydymffurfiaeth, fodd bynnag mae'n debygol y byddant yn digwydd ar yr un pryd. Os bydd ein cydweithwyr yn y gwasanaethau gorfodi rheolau cynllunio yn gofyn am ein cymorth o ran materion sy'n gysylltiedig â sŵn, byddwn yn ei roi.

**Diben y daflen hon yw rhoi gwybod ichi sut y mae'r weithdrefn ar gyfer ymchwilio i gwynion am Niwsans Sŵn Statudol o dyrbinau gwynt yn gweithio yn Sir Gaerfyrddin.**

## 2. Y Camau Ymchwilio i Gwynion am Sŵn

Mae hyd at bum cam posibl yng ngweithdrefn Cyngor Sir Caerfyrddin ar gyfer ymchwilio i sŵn:

(i) Ymholiad Cychwynnol
(ii) Cwblhau Log Niwsans

Complaints are recorded and investigated in accordance with a procedure designed to ensure that complaints are dealt with consistently, appropriately and fairly.

Some wind turbine developments have planning conditions specifically relating to noise, such as noise levels the wind turbine(s) should not exceed. There may also be a condition that requires the operator to undertake compliance monitoring upon receipt of a justified noise complaint to demonstrate compliance with the noise limit. Not all wind turbine developments have these conditions but where they do, Planning Enforcement will be responsible for assessing compliance with the planning conditions. For further information regarding planning compliance then please contact Carmarthenshire direct on 01267 234567 or visit www.carmarthenshire.gov.uk

The Statutory Nuisance investigation will be undertaken separately to compliance monitoring, however it is likely that they will be carried out at the same time. When requested by our planning enforcement colleagues we will provide them with assistance regarding noise related matters.

**This leaflet is designed to let you know how the procedure for investigating Statutory Noise Nuisance complaints from wind turbines work within Carmarthenshire.**

## 2. Stages in investigating a noise complaint

There are up to five possible stages to Carmarthenshire County Council's noise investigation procedure:

(vi) Initial Enquiry

(iii) Casglu Gwybodaeth/Tystiolaeth
(iv) Asesu'r Dystiolaeth
(v) Gorfodi

Disgrifir pob un o'r camau hyn ar y tudalennau canlynol.

### (i) Ymholiad Cychwynnol

Pan fydd rhywun yn cysylltu â Chyngor Sir Caerfyrddin gyda chwyn am sŵn, bydd ein Canolfan Gyswllt yn cofnodi manylion yr achwynydd a natur y gŵyn ac yn eu cadw ar ein cronfa ddata ar gyfrifiadur.

Ein nod yw anfon y pecyn gwybodaeth hwn a log niwsans sŵn at yr achwynydd cyn pen 10 diwrnod gwaith.

### (ii) Cwblhau Log Sŵn

Cofnodwch wybodaeth ar y log sŵn atodol, a fyddai o gymorth o ran disgrifio'r sŵn yr achwynir yn ei gylch a sut mae'n effeithio arnoch.

Mae'r log sŵn hwn yn helpu achwynwyr i ddisgrifio a chofnodi profiadau personol o sŵn. Bydd defnydd ohono yn galluogi achosion o darfu i gael eu cymathu ag amodau'r tywydd (h.y. cyfeiriad a chyflymdra'r gwynt) a allai effeithio ar y sŵn sy'n deillio o'r tyrbinau gwynt, sy'n ddefnyddiol wrth raglennu ymweliadau gan swyddogion yn ystod cyfnodau pan fydd y broblem yn fwy tebygol o ddigwydd.

Gall copi o'r log sŵn gael ei anfon at ein cydweithwyr yn y gwasanaethau Gorfodi Rheolau Cynllunio a/neu weithredwr y tyrbinau gwynt. Gall gael ei ddefnyddio hefyd fel tystiolaeth os caiff unrhyw gamau cyfreithiol eu cymryd gan yr awdurdod.

Dychwelwch y log sŵn o fewn mis neu'n gynt os ydych yn credu ei fod yn

(vii) Completion of Nuisance Log
(viii) Information/Evidence Gathering
(ix) Assessment of Evidence
(x) Enforcement

Each of these stages is described in turn in the following pages

### (i) Initial Enquiry

When someone first contacts Carmarthenshire County Council with a complaint about noise, the complainant's details and the nature of the complaint are taken by our Contact Centre and recorded on our computer database.

It is our aim that within 10 working days this information pack and a noise nuisance log is sent to the complainant.

### (ii) Completion of Noise Log

Please record information on the attached noise log, which would be helpful in describing the noise being complained of and how it affects you.

This noise log helps complainants to describe and record personal experiences of the noise. Its use will enable the incidence of reported interference to be correlated with weather conditions (i.e wind speed and direction) which may affect the noise immissions from the wind turbines, which is useful in programming visits by officers during periods when the problem is more likely to occur.

A copy of the noise log may be sent to our Planning Enforcement colleagues and/or the wind turbine operator. It may also be used as evidence in the event of any legal proceedings being taken by the authority.

Please return the noise log within one month or earlier if you feel it contains

cynnwys gwybodaeth ddigonol i gyfleu'r niwsans y mae'r sŵn yn ei achosi ichi. I gael rhagor o wybodaeth neu gyngor, cysylltwch â'r swyddog ymchwilio. Dylid dychwelyd logiau wedi'u cwblhau at i Tîm Diogelu'r Amgylchedd, Neuadd y Dref, Heol Iscennen, Rhydaman, Sir Gaerfyrddin SA18 3BE. Hefyd gallwch ddychwelyd y log sŵn drwy'r e-bost at diogelurcyhoedd@sirgar.gov.uk

**Os na fydd y log sŵn yn cael ei ddychwelyd o fewn mis neu os na fydd y wybodaeth yn y log yn dangos bod Niwsans Sŵn Statudol posibl, ni chymerir camau pellach gan y cyngor o ran eich cwyn.**

## (iii)Casglu Gwybodaeth/Tystiolaeth

Ar ôl cael log sŵn wedi'i gwblhau sy'n cynnwys gwybodaeth ddigonol, byddwn yn dyfeisio rhaglen fonitro sy'n seiliedig ar y wybodaeth yn eich log. Bydd y wybodaeth yn cael ei chymathu â data'r tywydd. Lle nad yw hyn yn bosibl, byddwn yn seilio ein hymchwiliad ar y sefyllfa waethaf posibl (h.y. pan fydd eich eiddo i gyfeiriad y gwynt o'r tyrbin). Gall y rhaglen fonitro gynnwys ymweliadau rhagweithiol a/neu osod cyfarpar monitro sŵn.

Caiff llythyr ei anfon at weithredwr y tyrbinau gwynt yn ei hysbysu bod cwyn wedi dod i law ac y bydd swyddogion yn cynnal ymchwiliad Niwsans Sŵn Statudol.

Fel arfer mae rhestr aros ar gyfer y cyfarpar monitro, a bydd swyddogion yn blaenoriaethu gyda'r adnoddau sydd ar gael, ar sail y dystiolaeth a gasglwyd. Bydd swyddogion yn ymweld â'ch cartref i wneud asesiad a/neu i osod cyfarpar monitro sŵn yn eich eiddo ar adegau pan fydd y tarfu'n fwyaf tebygol o ddigwydd.

Fel arfer bydd swyddogion yn cynnal tri

sufficient information that reflects the disturbance that you are experiencing. For further information or advice then please contact the investigating officer. Completed logs should be returned to the Environmental Protection Team, Town Hall, Iscennen Road, Ammanford, Carmarthenshire SA18 3BE. You can also return the noise log via email to publicprotection@carmarthenshire.gov.uk

**If the noise log is not returned within one month or if the information contained within the log does not indicate the presence of a potential Statutory Noise Nuisance, no further action will be taken by the council with respect to your complaint.**

## (iii) Information/Evidence Gathering

Upon receipt of a completed noise log, that contains sufficient information we will devise a monitoring programme based on the information contained within you log. The information will be correlated with weather data. Where this is not possible we will focus our investigation on worst case scenario (i.e when your property is downwind of the turbine). The monitoring programme may involve pro-active visits and/or the installation of noise-monitoring equipment.

A letter will be sent to the wind turbine operator advising them that a complaint has been received and that officers will be undertaking a Statutory Noise Nuisance investigation.

There is usually a waiting list for the allocation of monitoring equipment, and officers will prioritise within the resources available, based on the logged evidence collected. Officers will visit your home to make an assessment and/or install noise monitoring equipment at

ymweliad ar y mwyaf (mae hyn yn cynnwys cyfnodau monitro) i roi pob cyfle posibl i'ch cwyn gael ei chadarnhau. Os nad oes Niwsans Sŵn Statudol ar ôl cynnal **tri ymweliad**, deuir â'r gŵyn i ben fel arfer.

Os caiff cyfarpar monitro sŵn ei osod yn eich cartref, bydd yn cael ei adael am gyfnod priodol o amser fel y barno'r swyddog ymchwilio'n ddoeth. Bydd angen soced drydan addas i weithredu'r cyfarpar monitro sŵn. Bydd angen eich cydweithrediad bryd hyn i recordio'r sŵn. Bydd hyn yn golygu gwasgu botwm pan fydd y sŵn yn digwydd.

Bydd y swyddogion yn rhoi cyngor a chyfarwyddyd i chi pan fyddant yn gosod y cyfarpar. Hefyd mae'n bwysig cadw at gyngor neu gyfarwyddyd y swyddogion fel nad effeithir ar y dystiolaeth mewn unrhyw fodd. Os yw'r awdurdod yn defnyddio'r dystiolaeth hon yn ystod camau ffurfiol bydd yn rhaid i'r sawl sy'n defnyddio'r cyfarpar roi datganiad tyst i gadarnhau'r dystiolaeth honno.
I gadarnhau eich bod yn deall y cyngor a roddir ichi pan osodir y cyfarpar monitro sŵn, byddwn yn gofyn ichi lofnodi ffurflen datganiad a nodi'r dyddiad arni.

### (iv) Asesu'r Dystiolaeth

Bydd yr holl dystiolaeth a gesglir yn ystod yr ymchwiliad sŵn yn cael ei chasglu. Weithiau mae angen dadansoddi data sylweddol, ar ffurf data sain a data ystadegol, ac o ganlyniad gall hon fod yn broses hirfaith.

### (v) Gorfodi

Pan fo Niwsans Sŵn Statudol yn bodoli neu'n debygol o ddigwydd neu ailddigwydd, rhaid cyflwyno Rhybudd (ion) Lleihau i'r gweithredwr tyrbinau gwynt. Caniateir cyfnod penodol i gydymffurfio ag amodau'r Hysbysiad.

your property during periods when the disturbance is most likely to occur.

Officers will usually undertake a maximum of three visits (this includes monitoring periods) to substantiate your complaint. If after the **three visits** a Statutory Noise Nuisance has not been established, then the complaint will normally be ended.

If noise monitoring equipment is installed at your home it will be left for a suitable period of time at the discretion of the investigating officer. To operate the noise monitoring equipment a suitable electrical power point will be necessary. Your co-operation will be required at this stage to trigger audio records of the reported noise. This will entail the pressing of a button when the noise occurs.

Officers will provide advice and guidance at the time of setting up equipment. It is also important that any advice or instruction given by the officer is adhered to, so that any evidence collected is not jeopardised or corrupted. Please be aware that if the evidence is used by the authority in any formal action then we would require a witness statement from the person operating the equipment to authenticate the evidence.
To confirm that you understand the advice provided to you during the installation of the noise monitoring equipment we will ask you to sign and date a declaration form.

### (vi) Assessment of Evidence

All evidence gathered during the noise investigation will be assessed. It may be necessary on occasions to analyse a significant amount of data, both audio and statistical, and consequently this can be a lengthy process.

Gall gweithredwr y tyrbin(au) gwynt apelio yn erbyn telerau'r Hysbysiad. Y Llys fyddai'n gwrando ar yr apêl ac yn penderfynu arni.

Os ceir rhagor o gwynion sy'n awgrymu na chydymffurfir â'r hysbysiad, bydd ymchwiliadau'n cael eu cynnal i gadarnhau a oes trosedd wedi digwydd. Ar yr adeg hon, bydd yr Awdurdod Lleol wedyn yn gwneud penderfyniad gwybodus ynghylch beth i'w wneud nesaf, a allai arwain at gymryd camau ffurfiol. Y Llys fydd yn gwrando ar achosion ffurfiol yn ymwneud â thorri'r Hysbysiad ac yn penderfynu arnynt.

**I sicrhau apêl/erlyniad llwyddiannus, bydd yn rhaid i chi roi tystiolaeth yn y Llys i gefnogi'r achos a gyflwynwyd gan yr awdurdod lleol.**

Mewn achosion lle nad yw'r dystiolaeth yn dangos bod Niwsans Sŵn Statudol, deuir â'r gŵyn i ben a byddwch yn cael gwybod am hyn yn ysgrifenedig.

Gall unigolion gymryd eu camau eu hunain o dan Adran 82 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, a bydd y swyddogion ymchwilio yn gallu rhoi gwybod ichi am y weithdrefn hon ar gais.

### (vii) Enforcement

Where a Statutory Noise Nuisance is in existence or is likely to occur or recur, an abatement Notice(s) shall be served on the wind turbine(s) operator. A reasonable time will be given to comply with the terms of the notice. The wind turbine(s) operator can appeal against the terms of the Notice. The appeal would be heard and decided in Court.

If further complaints are received which suggest that the notice is not being complied with, investigations will take place to confirm whether an offence has occurred. At this stage, the Local Authority will then make an informed decision on how best to proceed, which may result in formal action. Formal proceedings relating to a breach of the Notice would be heard and decided in Court.

**In order to achieve a successful appeal/prosecution, you will have to give evidence in Court to support the case presented by the local authority.**

In cases where the evidence does not constitute a Statutory Noise Nuisance, the complaint will be ended and you will be informed of this in writing.

Individuals can take their own action under Section 82 of the Environmental Protection Act 1990, and investigating officers can advise you of this procedure upon request.


GWEITHDREFN CWYNION AM SWN
Rhoi Pecyn Gwybodaeth gyda log sŵn a manylion yr ap sŵn i'r achwynydd
Dychwelir y log sŵn papur/cyflwynir recordiadau sain drwy'r Ap Sŵn
Ni ddychwelir y log sŵn papur/ni chyflwynir dim recordiadau sain drwy'r Ap Sŵn
Y wybodaeth a ddarparwyd yn dangos bod niwsans sŵn posibl
Y wybodaeth a ddarparwyd yn annigonol
Dod â'r Ymchwiliad i Ben
Ymchwilio i'r Gŵyn: Rhaglen fonitro yn cael ei pharatoi yn unol â'r wybodaeth ar y daflen log
A oes niwsans sŵn?
Nac oes
Dod â'r Ymchwiliad i Ben Darparu'r wybodaeth am adran 82 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd os gofynnir
Oes
CAMAU GORFODI GOHIRIEDIG
Cymerir camau priodol o dan y ddeddfwriaeth fwyaf priodol sy'n berthnasol i niwsans sŵn e.e. Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990


NOISE COMPLAINT PROCEDURE
Information Pack with noise log and details of noise app issued to the complainant.
Paper noise log returned/audio records submitted via Noise App
Paper noise log is not returned/no audio records submitted via Noise App
Information provided indicates the presence of a potential noise nuisance
Insufficient information provided
Investigation Ended
Investigate Complaint: Monitoring programme compiled in accordance with information contained on log sheet
Can noise nuisance be established?
No
Investigation Ended Information provided on EPA Section. 82 if requested
Yes
DEFERRED ENFORCEMENT ACTION
Appropriate action will be taken under the most appropriate legislation relevant to noise nuisance e.g. Environmental Protection Act 1990